



Dyddiad cyflwyno: 23 Chwefror 2018

Rheoli Ynni yn y GIG

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais am wybodaeth isod, dyddiedig 2 Chwefror 2018, i ofyn am wybodaeth am Reoli Ynni yn y GIG.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiwn isod a nodi ein hateb cyfatebol.

Rwyf i ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r defnydd o ynni yn y sector iechyd yng Nghymru ac rwyf wedi dod ar draws yr adroddiad canlynol:

http://www.wales.nhs.uk/documents/NHS_Energy_Management_W.pdf Er ei fod yn darparu rhywfaint o wybodaeth gefndir gwerthfawr, mae'r adroddiad dros 12 mlwydd oed erbyn hyn. Felly rwy'n holi tybed a gafwyd archwiliadau ar ôl hynny neu a oes unrhyw adroddiad sy'n dangos sut y gweithredwyd eich argymhellion? Os felly, a fyddai'n bosibl imi gael yr adroddiadau hyn (neu'r ddolen berthnasol)?

Rydym ni'n cadw rhywfaint o wybodaeth ar ffurf adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd hwn yn dilyn ein hadroddiad yn 2005 ac y mae ar gael ar y wefan ar gyfer adroddiadau Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r 2il Gynulliad: <http://www.assembly.wales/cy/bus-home/archive-business/bus-second-assembly/2-ac/Pages/bus-committees-second-ac-reports.aspx> lle cewch chi weld ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio hwnnw. Roedd y Pwyllgor, wrth gymryd tystiolaeth, yn edrych ar y materion a godwyd yn ein hadroddiad. Mae'r wybodaeth hon yn weddol hygyrch ichi drwy ffyrdd eraill ac wedi'i heithrio o gael ei datgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Nid ydym wedi cynnal gwaith sy'n benodol i GIG Cymru gyfan ar y defnydd o ynni ers ein hadroddiad yn 2005 ac felly nid ydym yn cadw cofnodion o adroddiadau penodol eraill. Fe fuom ni'n cynnal gwaith ehangach ar reoli adeiladau yn 2009 a 2010 a oedd yn ymwneud ychydig â materion rheoli ynni, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r GIG, er hynny nid oedd yn darparu manylion ynghylch perfformiadau ynni sefydliadau unigol. Fe wnaethom ni gyhoeddi [adroddiad](#) a [chanllaw arfer da](#) a fydd efallai o ddiddordeb ichi.

Yn dilyn ad-drefnu'r GIG, [Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#) (NWSSP) sy'n arwain craffu ac yn arwain ar faterion sy'n ymwneud â rheoli ystadau. Rydym yn ymwybodol, o leiaf tan 2012-13, fod Cyflenwadau Iechyd Cymru ac yna'r NWSSP wedi

cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr a Pherfformiad yr Ystâd yn flynyddol a oedd yn cynnwys sylwadau ar berfformiad ynni, yn gyffredinol ac ar lefel y bwrdd iechyd, ac efallai yr hoffech chi gysylltu â'r NWSSP i gael gwybodaeth am hyn. Rydym ni wedi dod o hyd i gopi o adroddiad Dangosfwrdd Ystadau'r GIG ar gyfer 2014-15 sy'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth am faterion yn ymwneud ag ynni'r GIG ac y mae wedi ei atodi rhag ofn y bydd o ddiddordeb. Mae cyrff unigol y GIG yn debygol o adrodd ar y defnydd/perfformiad o ran ynni yn eu hadroddiadau blynyddol, a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr Moeseg a'r Gyfraith, drwy e-bost: martin.peters@audit.wales neu drwy lythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan hon cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch pa un a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire SK9 5AF

e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745 Ffacs: 01625 524510

Nodwch er hynny y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl y byddech chi wedi defnyddio ein gweithdrefnau cwynion mewnol yn drylwyr cyn iddo ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o gyngor ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/>

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir